



Cyngor Bro Morgannwg

Canllaw i Seremonïau





Pam dylech chi ddewis Bro Morgannwg ar gyfer eich seremoni?

Rydym wrth ein boddau eich bod yn ystyried Bro Morgannwg ar gyfer eich diwrnod arbennig. Mae gan ein rhanbarth bopeth sydd ei angen arnoch er mwyn sicrhau bod eich diwrnod yn un i'w gofio go iawn.

Mae Bro Morgannwg, a elwir yn aml 'Y Fro' yn cwmpasu 130 milltir sgwâr ac mae ganddi 33 milltir o arfordir. Nodweddir ein hardal ddeniadol, fywiog gan gefn gwlad tonnog, cymunedau arfordirol, cyrchfannau glan môr, trefi marchnad prysur a phentrefi gwledig. Mae'r Swyddfa Gofrestru yn Y Barri, ein tref fwyaf.



Bydd ein tîm profiadol ac ymroddgar iawn yn eich tywys trwy holl broses y seremoni – o'r cam cyntaf, sef dewis eich lleoliad i gynnal y seremoni ar eich diwrnod mawr. Rydym yn ymfalchïo yn ein manwl gywirdeb a'n gwasanaeth croesawgar, gan roi'r holl ofal a'r sylw rydych yn eu haeddu er mwyn sicrhau eich bod yn cael diwrnod i'r brenin.

Hefyd gallwn gynnig ail-ddatgan addewidion priodas a phartneriaeth sifil a seremonïau enwi. Mae seremonïau dwyieithog ar gael ar gais (yn dibynnu ar argaeledd ein Cofrestryddion sy'n siarad Cymraeg).

Rydym yn cynnig croeso cynnes i unrhyw bâr sy'n dymuno gweld y cyfleusterau yn ein lleoliadau.



Ein Lleoliadau ym Mro Morgannwg

Yn Swyddfeydd Dinesig y Cyngor, rydym yn cynnig dwy ystafell seremonïau; y **Swyddfa Gofrestru**, ar gyfer seremonïau mwy agos atoch a diffwdan a **Swît Bro Morgannwg** mawr a all dderbyn partion mwy o hyd at 100 o bobl.

Y Swyddfa Gofrestru

Mae'r Swyddfa Gofrestru yn y Swyddfeydd Dinesig yng nghanol tref Y Barri. Gan gynnig lle ar gyfer y pâ, eu dau dyst a dau westai, mae'r Swyddfa Gofrestru'n berffaith ar gyfer seremoni agos atoch, ddiffwdan. Mae'n ystafell olau a syml, ac mae'r mynediad gwastad yn ddelfrydol i bobl anabl neu bobl hŷn.

Seremonïau - Dydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 4pm am ffi o £46.

Swît Bro Morgannwg

Ein prif ystafell seremonïau yn Swyddfeydd Dinesig y Cyngor, mae Swît Bro Morgannwg yn groesawgar ac yn helaeth. Gall yr ystafell lachar, fodern hon dderbyn seremoni o unrhyw faint gyda hyd at 100 o westeion.

Seremonïau – Dydd Llun i ddydd Iau (9am tan 6pm) am ffi o £151.50, dydd Gwener (9am tan 6pm) am ffi o £192.90*. Dydd Sadwrn tan 10am am fi o £183.10*.*

** Mae'r ffioedd hyn yn cynnwys ffi archebu na ellir ei had-dalu o £100.*

Mae'r holl daliadau'n cynnwys llogi'r ystafell a phresenoldeb y Cofrestrydd





Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston

Yn y Pentref Canoloesol yn y parc gallwn gynnig adeiladau hanesyddol a ddôl at eich defnydd arbennig chi fel lleoliad ar gyfer seremonïau sifil, bendithiadau priodas a phartion priodas. Mae'r Ysgubor Ddegwm ac Ysgubor y Beili wedi'u trwyddedu ar gyfer seremonïau sifil.

Bydd pob priodas yn Cosmeston yn unigryw gyda defnydd arbennig o'n hardaloedd priodas penodol. Gall gynnwys cyfuniad o'n dau adeilad a'r ddôl (y gellir gosod pabell fawr, tîpi, iwert neu debyg ynddi). Mae'r pentref wedi ymddangos yn rheolaidd mewn ffilmiau a chynrychiadau teledu, ac mae o fewn tafliad carreg yn unig o Gaerdydd. Caiff holl agweddau allweddol eich diwrnod mawr eu trefnu gan ein dewis bartneriaid ar gyfer digwyddiadau priodas. Mae parcio am ddim wrth logi'r safle.

*Bydd llogi Ysgubor y Beili a'r Ysgubor Ddegwm am seremoni yn costio, **£300** am **3 awr** yn ystod yr wythnos neu **£350** am **3 awr** ar y penwythnos. I logi'r ddôl ar gyfer digwyddiad neu dderbyniad priodas, mae ffi o **£1,000** yn daladwy (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gyfleusterau i'w darparu gan gynllunyydd priodasau cymeradwy na ffioedd Cofrestrydd – gweler y dudalen Lleoliadau Cymeradwy).*



Parc Gwledig Porthceri

Mae'r lleoliad unigryw hwn ar gyfer gwledd y briodas o fewn Parc Gwledig Porthceri ger Y Barri – wedi'i leoli yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y ddôl drawiadol gyda golygfeydd o'r draphont hanesyddol. Mae'r parc ger traeth Cold Knap ac mae'n lleoliad gwych o fewn cwm pictiwrresg sy'n ddelfrydol i'r rhai sy'n chwilio am leoliad gwledig.

Mae gennym lety dan do ym Mhorthordy'r Goedwig, gyda seddau ar gyfer hyd at 60 o westeion. Caiff holl agweddau allweddol eich diwrnod eu trefnu a'u cydlynu gan ein dewis bartneriaid ar gyfer digwyddiadau priodas.

*Mae llogi'r Bwthyn yn y Goedwig ar gyfer seremoni yn costio **£150** yn ystod y dydd a **£325** gyda'r nos. I logi'r ddôl ar gyfer digwyddiad neu dderbyniad, mae ffi o **£1,000** yn daladwy (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gyfleusterau i'w darparu gan gynllunydd priodasau cymeradwy (ar hyn o bryd **NID** yw hyn wedi'i drwyddedu fel Lleoliad Cymeradwy).*





Adeiladau Cymeradwy

Rhaid i gofrestryddion Bro Morgannwg fod yn bresennol mewn seremoni mewn unrhyw un o'r adeiladau hyn ac mae ffi ar gyfer hyn, ar wahân i'r ffi a godir gan y lleoliad o ddewis. Mae seremonïau a gynhelir mewn Adeiladau Cymeradwy ond yn gyfreithlon os cafodd yr adeilad drwydded gan yr awdurdod lleol. **Mae trwyddedau yn ddilys am dair blynedd.** Mae'n rhaid i chi sicrhau, felly, fod gan yr Adeilad Cymeradwy drwydded sy'n ddilys o hyd ar ddiwrnod eich priodas/partneriaeth sifil.

Mae'r ffi i Gofrestrydd Arolygu a/neu Gofrestrydd fod yn bresennol yn eich seremoni mewn Adeilad Cymeradwy rhwng 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2021 fel a ganlyn:

- Dydd Llun - Dydd Iau: **£421**
- Dydd Sadwrn: **£452.60**
- Dydd Gwener: **£447.50**
- Dydd Sul/Gwyliau Banc: **£493.20**

Sylwch: Mae tâl archebu na ellir ei ad-dalu o £100 yn daladwy pan wneir yr archeb.

● Bear Hotel	63 High Street, Y Bont-faen	01446 774814
● Gofod Celf Gweledig Coed Hills	Sant Hilari, Y Bont-faen	07969 563638
● Copthorne Caerdydd	Croes Cwrlwys	029 20599100
● Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston	Heol Larnog, Penarth	029 20701678
● Clwb Golff Parc Cottrell	Sain Nicolas, Y Barri	01446 781781
● Neuadd y Dref, Y Bont-faen	Heol Fawr, Y Bont-faen https://cowbridge-tc.gov.uk	01446 781781
● Duke of Wellington	48 Heol Fawr, Y Bont-faen	01446 773592
● Fferm Dyffryn Mawr	Pendeulwyn	01443 225200
● Dyffryn Springs	Home Farm, Dyffryn	02920595929



● Gileston Manor	Gileston http://www.gilestonmanor.co.uk/index.php	07591 203764
● Gwinllan Glyndŵr	Llanfleiddan, Y Bont-faen	01446 774564
● Holm House	Marine Parade, Penarth	02920 706029
● Gwinllan Llanerch	Calon Lodge LLP, Hensol	01443 222716
● Goleudy Trwyn yr As	Sully Road, Penarth	029 20709309
● Nash Point Lighthouse	Marcroes, Llanilltud Fawr https://www.trinityhouse.co.uk/weddings-at-nash-point-lighthouse	07866767707
● Ystafelloedd Paget	Victoria Road, Penarth	029 20700721
● Penarth Masonic Hall	Stanwell Road, Penarth	029 20709330
● Pafiliwn Pier Penarth	Y Promenâd, Penarth	029 20713873
● Cyngor Tref Penarth, Tŷ'r Gorllewin	Stanwell Road, Penarth	029 20700721
● Rosedew Farm	Llantwit Major	01446 793002
● Clwb Golff Sant Andreas	Argae Lane, Y Barri	01446 722227
● Castell Sain Dunwyd	Llanilltud Fawr	01446 799309
● Gwesty, Clwb Golff a Chlwb Gwledig y Santes Fair	St Mary's Hill, Pencoed	01656 861100
● Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Sili	South Road, Sili	029 20530629
● The Mount Rooms Hotel	Porthkerry Road, Y Barri	01446 370145
● Yr Hen Ysgol	Wine Street, Llanilltud Fawr	029 20000064
● Cyrchfan y Fro a Chastell Hensol	Parc Hensol, Hensol	01443 667800
● Clwb Golff Castell Gwenfô	Gwenfô	029 20594371
● West House Hotel	West Street, Llanilltud Fawr	01446 792406



Sut mae cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r lleoliadau yn y llyfryn hwn, cysylltwch â Thîm Cofrestru Bro Morgannwg:

Ffôn: 01446 700111 neu

Ebost: registrationservice@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk

Ewch i: Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Hollltwn, Y Barri, CF63 4RU

I gael gwybodaeth am logi'r lleoliadau naill yn Cosmeston neu ym Mharciau Gwledig Porthceri, cysylltwch â nhw yn uniongyrchol:

Ffôn: 02920 701678

Ydych chi wedi ystyried Arlwyo ar gyfer eich diwrnod arbennig?

Mae ein arlwywyr hynod brofiadol yng Ngwasanaethau Arlwyo'r Fro yn llawn syniadau ffres a bwydlenni arloesol a byddent yn falch iawn o drafod eich gofynion yn fwy manwl.

Cysylltwch â ni: contactus@bigfreshcatering.co.uk

